

Rheoleiddio iechyd a diogelwch ...

.... canllaw byr

PO

PO

pobl
people



CYFATHREBU



Pam y canllaw hwn?

Cynhaliodd y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) *Adolygiad o'r broses o reoleiddio iechyd a diogelwch ym 1994*. Canfyddodd fod pobl yn drysu ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng:

- canllawiau;
- Codau Ymarfer Cymeradwy (ACOPs);
- rheoliadau

a sut y maent yn perthyn i'w gilydd.

Nod y daflen hon yw esbonio swyddogaeth pob un. Ar gyfer cyflogwyr a phobl hunan-gyflogedig y'i bwriadwyd, ond bydd o ddiddordeb i unrhyw un sydd am wybod sut y dylai cyfraith iechyd a diogelwch weithio.

Yr hyn sy'n ofynnol o dan gyfraith iechyd a diogelwch

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 yw sylfaen cyfraith iechyd a diogelwch Prydain.

Noda'r Ddeddf y dyletswyddau cyffredinol sydd ar gyflogwyr tuag at eu cyflogeion ac aelodau o'r cyhoedd, ac sydd ar gyflogeion tuag at eu hunain ac at ei gilydd.

Amodir y dyletswyddau hyn yn y Ddeddf gan yr egwyddor o '*cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol*'. Mewn geiriau eraill, nid oes yn rhaid i gyflogwr gymryd camau i osgoi neu leihau'r risg os ydynt yn dechnegol amhosibl neu os byddai'r amser, trafferth neu gost y camau yn rhy anghymesur o lawer o gymharu â'r risg.

Mae'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith yma yn rhywbeth y byddai rheolaeth dda a synnwyr cyffredin yn arwain cyflogwyr i'w wneud beth bynnag: hynny yw, edrych ar y risgiau a chymryd camau synhwyrol i ddelio â hwy.

Yn gyffredinol, mae **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999** (y **Rheoliadau Rheoli**) yn manylu ar yr hyn y mae'n ofynnol i gyflogwyr ei wneud er mwyn rheoli iechyd a diogelwch o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Fel y Ddeddf, maent yn berthnasol i bob gweithgaredd gwaith.

Y prif ofyniad ar gyflogwyr yw cynnal **asesiad risgiau**. Mae angen i gyflogwyr â phump neu fwy o gyflogeion gofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad risgiau.

Dylai'r broses o asesu risgiau fod yn hawdd i'w gwneud mewn gweithle syml fel swyddfa. Dim ond os yw'n delio â pheryglon difrifol fel y rhai a geir mewn gorsafoedd ynni niwclear, gwaith cemegol, labordy neu lwyfan olew y dylai hyn fod yn gymhleth.

Bydd y daflen HSE **Pum cam i asesu risgiau** yn rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Heblaw am gynnal asesiad risgiau, mae angen i gyflogwyr:

- wneud trefniadau ar gyfer gweithredu'r mesurau iechyd a diogelwch sydd eu hangen yn ôl yr asesiad risgiau;
- penodi pobl gymwys (nhw eu hunain yn aml neu gydweithwyr yn y cwmni) i'w helpu i weithredu'r trefniadau;
- sefydlu gweithdrefnau brys;
- darparu gwybodaeth eglur a hyfforddiant i gyflogeion;
- cydweithio â chyflogwyr eraill sy'n rhannu'r un gweithle.

Gofynna **rheoliadau eraill** am weithredu mewn ymateb i beryglon penodol, neu mewn diwydiannau lle mae peryglon yn arbennig o uchel. Ceir rhestr o'r prif reoliadau sy'n berthnasol yn gyffredinol yn Atodiad 1. Ni chaiff llawer ohonynt eu hamodi gan y term 'rhesymol ymarferol'.

Cyfraith Ewropeaidd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llawer o gyfraith iechyd a diogelwch Prydain wedi deillio o Ewrop. Gall Aelod Wladwriaethau gytuno ar gynigion y Comisiwn Ewropeaidd, a nhw sy'n gyfrifol wedyn am eu gwneud yn rhan o'u cyfraith gwlad.

Mae cyfraith iechyd a diogelwch fodern y wlad hon, gan gynnwys llawer o'r hyn a ddaw o Ewrop, yn seiliedig ar yr egwyddor o asesu risgiau fel y disgrifiwyd uchod.

Gweithredu ar iechyd a diogelwch: Opsionau

Mae'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch a'i adain weithredol, yr Awdurdod Gweithredol (HSC/E), wedi treulio dros ugain mlynedd yn moderneiddio strwythur cyfraith iechyd a diogelwch. Eu nod yw gwarchod iechyd, diogelwch a lles cyflogaion, a diogelu eraill, y cyhoedd yn bennaf, a allai gael eu peryglu o ganlyniad i weithgaredd gwaith.

Mae'r HSC/E yn ymgynghori'n llawn â phobl a gaiff eu heffeithio gan eu cynigion deddfwriaethol, ac yn mabwysiadu ymagweddau amrywiol ar sail asesu a rheoli risgiau (gweler 'Yr hyn sy'n ofynnol o dan gyfraith iechyd a diogelwch').

Ymhlith yr hyn a allai gymhell yr HSC/E i weithredu y mae:

- newidiadau mewn technolegau, diwydiannau neu risgiau;
- tystiolaeth o ddamweiniau ac afiechyd, yn ogystal â phryder y cyhoedd;
- Cyfarwyddbau Ewropeaidd.

Lle y bo'r HSC/E yn ystyried bod angen gweithredu er mwyn ychwanegu at drefniadau presennol, dyma eu tri phrif opsiwn:

- canllawiau;
- Codau Ymarfer Cymeradwy;
- rheoliadau.

Mae'r HSC/E yn ceisio cymryd pa bynnag opsiwn, neu opsiynau, sy'n rhoi'r hyblygrwydd mwyaf a'r gost leiaf i gyflogwyr, tra'n rhoi'r diogelwch cywir i gyflogegion a'r cyhoedd.

Canllawiau

Cyhoedda HSE ganllawiau ar amrywiaeth o bynciau (gweler diwedd y canllaw hwn).

Gellir cyhoeddi canllawiau ar gyfer problemau iechyd a diogelwch diwydiant penodol neu broses arbennig a ddefnyddir mewn nifer o ddiwydiannau.

Prif bwrpas canllawiau yw:


- dehongli - helpu pobl i ddeall yr hyn a ddywed y gyfraith - gan gynnwys, er enghraifft, sut y mae gofynion sy'n seiliedig ar Gyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd yn cydweddu â'r rhai a geir o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith;
- helpu pobl i gydymffurfio â'r gyfraith;
- rhoi cyngor technegol.

Nid yw'n orfodol i bobl ddilyn canllawiau ac mae cyflogwyr yn rhydd i gymryd camau eraill. Ond os dilynant y canllawiau byddant fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. (Hefyd, gweler yr adrannau isod ar Godau Ymarfer Cymeradwy a rheoliadau, sy'n esbonio dulliau eraill o helpu cyflogwyr i wybod a ydynt yn gwneud yr hyn y mae'r gyfraith yn gofyn iddynt ei wneud.)

Nod yr HSC/E yw sicrhau y caiff canllawiau eu diweddarau, oherwydd wrth i dechnoleg newid, mae'r risgiau a'r mesurau sydd eu hangen er mwyn delio â hwy yn newid hefyd.

Codau Ymarfer Cymeradwy

Mae Codau Ymarfer Cymeradwy yn cynnig enghreifftiau ymarferol o arfer da.



Maent yn cynnig cyngor ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith drwy, er enghraifft, darparu canllaw ynglŷn â'r hyn sy'n 'rhesymol ymarferol'. Er enghraifft, os yw rheoliadau'n defnyddio geiriau fel 'addas a digonol', gall Cod Ymarfer Cymeradwy egluro yr hyn sy'n ofynnol o dan amgylchiadau arbennig.

Mae gan Godau Ymarfer Cymeradwy *status cyfreithiol arbennig*. Os erlynir cyflogwyr am dorri cyfraith iechyd a diogelwch, ac y caiff ei brofi nad ydynt wedi dilyn darpariaethau perthnasol y Cod Ymarfer Cymeradwy, gall llys farnu eu bod ar fai oni allant ddangos iddynt gydymffurfio â'r gyfraith mewn rhyw ffordd arall.

Ym 1995 cynhaliodd yr HSC ymgynghoriad ar rôl Codau Ymarfer Cymeradwy yn y system iechyd a diogelwch a daeth i'r casgliad y gellid eu defnyddio o hyd i ategu dyletswyddau cyfreithiol mewn amgylchiadau penodol.

Rheoliadau

Cyfreithiau a gymeradwywyd gan y Senedd yw rheoliadau. Fel arfer, fe'u gwneir o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, yn dilyn cynigion gan yr HSC. Mae hyn yn berthnasol i reoliadau sy'n seiliedig ar Gyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd yn ogystal â rhai a luniwyd yn y wlad hon.

Mae'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a dyletswyddau cyffredinol yn y Rheoliadau Rheoli, yn pennu nodau (gweler 'Pa ffurf a gymerant?') ac maent yn rhoi'r rhyddid i'r cyflogwyr benderfynu sut i reoli'r risgiau a nodir ganddynt. Mae Canllawiau a Chodau Ymarfer Cymeradwy yn rhoi cyngor. Ond mae rhai risgiau mor fawr, neu mae'r camau rheoli cywir mor ddud, fel na fyddai'n briodol rhoi'r dewis i gyflogwyr benderfynu beth i'w wneud yn eu cylch. Nodir y risgiau hyn yn y rheoliadau ac maent yn pennu'r camau gweithredu penodol y mae'n rhaid eu cymryd. Yn aml mae'r gofynion hyn yn absoliwt - gwneud rhywbeth heb amod yn ôl p'un a yw hynny'n rhesymol ymarferol ai peidio.

Sut y mae rheoliadau'n berthnasol

Mae rhai rheoliadau'n berthnasol i bob cwmni, fel Rheoliadau Trin Llwythi sy'n berthnasol pan symudir pethau â llaw neu â nerth corfforol, a Rheoliadau Offer Sgrîn Arddangos sy'n berthnasol lle bynnag y defnyddir VDU. Mae rheoliadau eraill yn berthnasol i beryglon sy'n unigryw i ddiwydiannau penodol, fel cloddio neu niwclear.

Pa ffurf a gymerant?

Ble bynnag y bo'n briodol bydd yr HSC yn cynnig rheoliadau ar ffurf **pennu nodau**: hynny yw, nodi **beth** sydd angen ei gyflawni, ond nid **sut** y mae'n rhaid gwneud hynny.

Weithiau mae angen bod yn **gyfarwyddol**, hynny yw nodi'n fanwl beth ddylid ei wneud. Mae rhai safonau yn absoliwt. Er enghraifft, dylai pob gwaith glo gael dwy allanfa; dylid osgoi cyffwrdd â dargludwyr trydanol byw. Weithiau gofynna cyfraith Ewropeaidd am gyfarwyddyd.

Mae rhai gweithgareddau neu sylweddau mor beryglus fel bod angen **trwyddedau** arnynt, er enghraifft ffrwydron a gwaredu asbestos. Gyda rhai gosodiadau neu weithrediadau mawr a chymhleth mae angen 'achosion diogelwch', sef asesiadau risgiau ar raddfa fawr sy'n ddarostyngedig i graffu gan y rheoleiddiwr. Er enghraifft, mae gofyn i gwmnïau rheilffordd gynhyrchu achosion diogelwch ar gyfer eu gweithrediadau.

Y berthynas rhwng y rheoleiddiwr a'r diwydiant

Fel y soniwyd uchod, mae'r HSC yn ymgynghori'n eang â'r rhai a gaiff eu heffeithio gan ei gynigion.

Mae'r HSC/E yn gweithio drwy:

- Pwyllgorau Ymgynghorol Diwydiant a Phwnc yr HSC, sy'n cynnwys aelodau o'r meysydd gwaith hynny y maent yn eu cwmpasu, ac sy'n canolbwyntio ar faterion iechyd a diogelwch mewn diwydiannau penodol (fel y diwydiant gwehyddu, adeiladu ac addysg neu feysydd fel sylweddau gwenwynig ac addasiadau genetig);
- canolwyr, fel sefydliadau busnesau bach;
- darparu gwybodaeth a chynghor i gyflogwyr ac eraill â chanddynt gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith;
- canllawiau i orfodwyr, sef arolygwyr HSE ac awdurdodau lleol;
- y cysylltiad dyddiol rhwng arolygwyr a phobl yn y gwaith.

Mae'r HSC yn ceisio barn busnesau bach yn uniongyrchol. Hefyd mae'n gofyn barn fanwl cynrychiolwyr busnesau bach am effaith y ddeddfwriaeth fwriadedig arnynt.

Beth nesaf?


Yn sgîl yr Adolygiad Rheoleiddio daethpwyd i'r casgliad fod system bresennol rheoleiddio iechyd a diogelwch yn gweithio'n dda yn gyffredinol, er iddi nodi nifer o feysydd lle y gellir gwneud gwelliannau.

Er bod yr Adolygiad wedi dod i ben, rydym yn parhau â'r gwaith o sicrhau Gwell Rheoleiddio. Mae'r rhaglen Adolygu wedi ffurfio sail bwysig ar gyfer llwyddiannau hirbarhaol o ran gwella iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae'r polisïau a'r mentrau sy'n deillio ohoni'n parhau i ategu ein prif nodau ac amcanion, a chânt eu gwella yn y blynyddoedd sydd i ddod, gan addasu a datblygu i adlewyrchu newidiadau o ran technoleg, tueddiadau yn y gweithle ac anghenion y bobl a effeithir.

Atodiad 1: Rhai darnau pwysig o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch

Ar wahan i'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ei hun, mae'r canlynol yn berthnasol ar draws yr amrywiaeth lawn o weithleodd:

- 1 ***Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnal asesiadau risgiau, gwneud trefniadau ar gyfer gweithredu'r mesurau angenrheidiol, penodi pobl gymwys a threfnu'r wybodaeth a'r hyfforddiant priodol.
- 2 ***Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992:*** maent yn cwmpasu ystod eang o faterion iechyd, diogelwch a lles sylfaenol fel cyfleusterau awyru, gwresogi, goleuo, gorsafoedd gweithio, eisteddleoedd a chyfleusterau lles.
- 3 ***Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrîn Arddangos) 1992:*** maent yn nodi'r gofynion ar gyfer gweithio gydag Unedau Arddangos Gweledol (VDUs).
- 4 ***Rheoliadau Offer Diogelu Personol yn y Gwaith (PPE) 1992:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ddarparu dillad ac offer addas ar gyfer eu cyflogeion.
- 5 ***Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith (PUWER) 1998:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod offer a ddarperir ar gyfer ei ddefnyddio yn y gwaith, gan gynnwys peiriannau, yn ddiogel.
- 6 ***Rheoliadau Gweithredoedd Trin Llwythi 1992:*** maent yn cwmpasu symud gwrthrychau â llaw neu â nerth corfforol.
- 7 ***Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981:*** maent yn cwmpasu gofynion cymorth cyntaf.
- 8 ***Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch ar gyfer Gweithwyr 1989:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr arddangos poster sy'n rhoi'r wybodaeth angenrheidiol am iechyd a diogelwch i gyflogeion.
- 9 ***Rheoliadau Atebolwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr drefnu yswiriant rhag damweiniau ac afiechyd i'w cyflogeion.

- 
- 10 ***Rheoliadau Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 1995:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gofnodi rhai anafiadau galwedigaethol, afiechydon a digwyddiadau peryglus.
 - 11 ***Rheoliadau Sârn yn y Gwaith 1989:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr weithredu i ddiogelu gweithwyr rhag dioddef niwed clywedol.
 - 12 ***Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n rheoli systemau trydanol sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel.
 - 13 ***Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002 (COSHH):*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr asesu risgiau sylweddau peryglus a chymryd y camau priodol.

Yn ogystal, mae rheoliadau penodol yn cwmpasu meysydd arbennig, er enghraifft asbestos a phlwm, a:

- 14 ***Rheoliadau Cemegau (Gwybodaeth am Beryglon a Phecynnu ar gyfer Cyflenwi) 2002:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddsbarthu, labelu a pheccynnu cemegau peryglus a darparu taflenni data diogelwch ar eu cyfer.
- 15 ***Rheoliadau Adeiladu (Cynllunio a Rheoli) 1994:*** maent yn cwmpasu systemau gweithio diogel ar safleoedd adeiladu.
- 16 ***Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1994:*** maent yn cwmpasu gosod, cynnal a chadw a defnyddio systemau ac offer nwy yn ddiogel mewn adeiladau domestig a masnachol.
- 17 ***Rheoliadau Rheoli Peryglon Prif Ddamweiniau 1999:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gweithgynhyrchu, storio neu'n cludo niferoedd penodol o gemegau neu ffrwydryddion peryglus i hysbysu'r awdurdod perthnasol.
- 18 ***Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol 2002:*** maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a phobl hunan-gyflogedig gynnal asesiad risgiau o weithgareddau gwaith sy'n ymwneud â sylweddau peryglus.

Atodiad 2: Deunydd darllen pellach

Basic advice on first aid at work Taflen INDG347 HSE Books 2002
(un copi am ddim neu becynnau o 20 ar werth ISBN 0 7176 2261 4)

Control of substances hazardous to health. The Control of Substances Hazardous to Health Regulations 2002 Cod Ymarfer Cymeradwy a chanllawiau L5 (Fourth edition) HSE Books 2002
ISBN 0 7176 2534 6

Essentials of health and safety at work (Third edition) Guidance
HSE Books 1994 ISBN 0 7176 0716 X

Five steps to risk assessment Leaflet INDG163(rev1) HSE Books
1998 (un copi am ddim neu becynnau o 10 ar werth 10 ISBN 0 7176
1565 0)

A guide to the Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations 1995 L73 (Second edition) HSE Books
1999 ISBN 0 7176 2431 5

Health and safety law: What you should know (rev1) Leaflet HSE
Books 1999 (available in priced packs of 25 ISBN 0 7176 1702 5)

Health and safety law: What you should know (Second edition)
Poster HSE Books 1999 ISBN 0 7176 2493 5

The law on VDUs: An easy guide: Making sure your office complies with the Health and Safety (Display Screen Equipment) Regulations 1992 (as amended in 2002) HSG90 HSE Books 2003
ISBN 0 7176 2602 4

Management of health and safety at work. Management of Health and Safety at Work Regulations 1999. Cod Ymarfer Cymeradwy a chanllawiau L21 (Second edition) HSE Books 2000
ISBN 0 7176 2488 9

Manual handling: Solutions you can handle HSG115 HSE Books
1994 ISBN 0 7176 0693 7

**Memorandum of guidance on the Electricity at Work Regulations
1989. Guidance on Regulations** HSR25 HSE Books 1989
ISBN 0 7176 1602 9

**Safe use of work equipment. Provision and Use of Work
Equipment Regulations 1998. Approved Code of Practice and
guidance** L22 (Second edition) HSE Books 1998 ISBN 0 7176 1626
6

**Safety in the installation and use of gas systems and appliances.
Gas Safety (Installation and Use) Regulations 1998. Approved
Code of Practice and guidance** L56 (Second edition) HSE Books
1998
ISBN 0 7176 1635 5

**A short guide to the Personal Protective Equipment at Work
Regulations 1992** Leaflet INDG174 HSE Books 1995 (un copi am
ddim neu becynnau o 10 ar werth ISBN 0 7176 0889 1)

Mae cyhoeddiadau Cymraeg am ddim ar gael o: Swyddfa HSE
Caerdydd, Adeiladau'r Llywodraeth, Tŷ Glas, Llanishen,
Caerdydd CF14 5SH. Ffôn: 029 2026 3000
Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth a'r rhai sydd am ddim ar
gael drwy'r post o:
HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA
Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk
(Mae cyhoeddiadau HSE hefyd ar werth mewn siopau llyfrau a
gellir llwytho taflenni am ddim o wefan HSE: www.hse.gov.uk)

Am wybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell
Wybodaeth HSE Ffôn: 08701 545500 Ffacs: 02920 859260
e-bost: hseinformationservices@natbrit.com neu ysgrifennwch at
© @Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili,
Caerffili CF83 3GG.

Hawlfraint y Goron Gellir atgynhychu'r cyhoeddiad hwn yn
rhad ac am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, ardystio neu
fasnachu. Cyhoeddwyd ar 08/03 am y tro cyntaf. Dylid cydnabod
y ffynhonnell fel HSE.

HSC13W(rev1) 08/03 C30

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan Awdurdod Gweithredol Iechyd
a Diogelwch